


Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Gogledd Cymru

1. Telerau ac Amodau Grantiau Diogelwch Cymunedol

- 1.1 Mae'r telerau a'r amodau hyn yn berthnasol i Grantiau Diogelwch Cymunedol a gyflwynir gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o'i Gronfa Diogelwch Cymunedol
- 1.2 Dyfernir Grantiau Diogelwch Cymunedol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i Randdeliaid yn seiliedig ar gyfres benodol o Delerau ac Amodau.
- 1.3 Gall deiliaid Grantiau Diogelwch Cymunedol ychwanegu amodau i'r grant er mwyn adlewyrchu amgylchiadau a gofynion penodol eu sefydliad, neu er mwyn adlewyrchu natur grant penodol. Drwy dderbyn y grant derbynnir yr amodau craidd yn ogystal ag unrhyw amodau ychwanegol. Rhaid i ddeilydd y grant gyflwyno unrhyw geisiadau i'r Comisiynydd am amrywiadau i'r Telerau a'r Amodau drwy Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a rhaid cael cymeradwyaeth ysgrifenedig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd neu Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- 1.4 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo'r hawl i amrywio'r Telerau a'r Amodau hyn.
- 1.5 Diffinnir y **Grant Diogelwch Cymunedol (y Grant)** fel cefnogaeth a roddir gan y Comisiynydd ar gyfer rhan o gostau neu gostau llawn prosiect/swydd/gwasanaeth a fydd yn helpu i leihau trosedd a chynyddu diogelwch cymunedol ar draws gogledd Cymru.
- 1.6 Diffinnir **Deilydd Grant Diogelwch Cymunedol (Deilydd Grant)** fel y person y bydd y grant yn cael ei gyflwyno iddo/iddi ac a fydd yn gyfrifol am arweiniad deallusol y prosiect ac am reolaeth hollgynhwysfawr y prosiect/swydd/gwasanaeth.



2. Rheoliadau Diogelu Data:

2.1 Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn defnyddio gwybodaeth a geir pan gyflwynir achos busnes/cais am grant ar gyfer prosesu'r cais, dyfarnu unrhyw Grant dilynol ac ar gyfer talu, cynnal ac adolygu'r Grant.

2.2 Gall hyn gynnwys:

- Gweithredu systemau prosesu grantiau a rheoli gwybodaeth
- Gweinyddu, ymchwilio ac adolygu cynigion grant.
- Dadansoddiadau perthnasol i werthusiad o brosiectau/swyddi/gwasanaethau.
- Astudiaethau Polisi a Strategaeth.

2.3 Er mwyn diwallu rhwymedigaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn perthynas ag atebolrwydd cyhoeddus a dosbarthu gwybodaeth, gellir hefyd cynnwys manylion am grantiau ar wefan Swyddfa Comisiynydd a Throsedd gogledd Cymru ac mewn cronfeydd data, adroddiadau a dogfennau cyhoeddus eraill.

3. Deddf Rhyddid Gwybodaeth

3.1 Tynnir sylw at ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG). Mae ar Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd ddyletswydd statudol i lunio Cynlluniau Cyhoeddi sy'n nodi'r mathau o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar eu gwefannau neu a gyhoeddir mewn dogfennau. Yn ychwanegol, mae ar Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddyletswydd i ymateb i geisiadau penodol ac efallai y bydd yn ofynnol datgelu gwybodaeth am, neu a gafwyd gan Ddeiliaid Grantiau. Mewn rhai achosion fe allai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymgynghori â Deilydd Grant cyn datgelu gwybodaeth, ond nid oes arno unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny. Os bydd Deilydd Grant yn credu bod unrhyw wybodaeth y bydd yn ei rhoi i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn destun eithriad dan y DdRhG yna dylai nodi hynny'n glir ar y wybodaeth gan egluro pam ac am ba hyd y mae'n ystyried bod yr eithriad yn berthnasol. Bydd swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried yr eglurhad cyn datgelu ond nid oes yn rhaid iddo ei dderbyn fel eithriad gorfodol.



3.2 Os bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn pennu bod Deilydd Grant yn dal gwybodaeth y mae ei hangen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau dan y DdRhG, bydd Deilydd y Grant yn cytuno i ganiatáu mynediad i'r fath wybodaeth cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar gais y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a beth bynnag o fewn 5 diwrnod gwaith.

3.3 Mewn rhai achosion efallai y bydd Deiliaid Grantiau yn uniongyrchol gyfrifol am gydymffurfio â'r DdRhG; mewn achosion o'r fath ni fydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fethiant i gydymffurfio ar ran Deilydd y Grant.

4. Llywodraethu

4.1 Cyfrifoldeb Deilydd y Grant fydd sicrhau bod y prosiect/swydd/gwasanaeth yn cael ei drefnu a'i gyflawni o fewn fframwaith arfer gorau sy'n cydnabod yr amrywiol ffactorau a allai ddylanwadu neu effeithio ar y prosiect/swydd/gwasanaeth. Gofyniad penodol yw bod rolau a chyfrifoldebau yn glir i dîm y prosiect ac i unrhyw rai eraill sy'n cydweithio â nhw. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl y bydd prosiectau a gwasanaethau yn cael eu cyflawni yn unol â'r safonau uchaf o unplygrwydd.

5. Iechyd a Diogelwch

5.1 Mae Deilydd y Grant yn gyfrifol am sicrhau y darperir amgylchedd gwaith diogel ar gyfer yr holl unigolion sy'n gysylltiedig â'r prosiect/swydd/gwasanaeth. Rhaid i'w ymdriniaeth o safbwynt materion iechyd a diogelwch ddiwallu'r holl ofynion rheolaethol a deddfwriaethol a bod yn gyson â'r arfer gorau a argymhellir gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch.

6. Caffael

6.1 Rhaid i Ddeilydd y Grant gaffael yr holl nwyddau a gwasanaethau trydydd parti sy'n angenrheidiol i'r dibenion a nodir yn Atodlen 1 mewn modd cystadleuol a chynaliadwy a dangos ei fod wedi sicrhau'r gwerth gorau o ran y defnydd o arian cyhoeddus.



7. Ffioedd

- 7.1 Deilydd y Grant fydd yn llwyr gyfrifol am unrhyw ffioedd cyfreithiol neu gostau o unrhyw natur sy'n codi mewn perthynas â'r Telerau a'r Amodau hyn.

8. Cyfleoedd Cyfartal

- 8.1 Mae'n rhaid i Ddeilydd y Grant weithredu polisi cyfleoedd cyfartal fel cyflogwr, defnyddiwr gwirfoddolwr ac fel darparwyr gwasanaethau heb ystyried hil, rhyw/hunaniaeth rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, anabled, priodas neu bartneriaeth sifil neu famolaeth.

9. Iaith Gymraeg


- 9.1 Lle mae'r Dibenion yn cynnwys neu'n ymwneud â darpariaeth gwasanaethau neu ddeunyddiau ysgrifenedig (gan gynnwys arwyddion a gwybodaeth a gyhoeddir ar lein) yng Nghymru, mae'n rhaid eu darparu yn Gymraeg a Saesneg, oni bai y byddai'n afresymol neu anghymesur gwneud hynny.

10. Defnyddio'r Arian

- 10.1 Yn amodol ar y Telerau ac Amodau gellir defnyddio grantiau, heb gyfeirio at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yn y fath fodd ag sydd orau i gyflawni'r prosiect/swydd/gwasanaeth fel y'i diffinnir yn y Dibenion.

11. Gweithdrefn Gychwynnol

- 11.1 Mae'r broses ar gyfer cyflwyno Grant yn cynnwys dwy gam ar wahân. Mae'n rhaid i Ddeilydd y Grant dderbyn y Grant yn ffurfiol drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen Derbyn Cynnig o fewn 10 diwrnod gwaith i gyhoeddi'r llythyr Telerau ac Amodau. Bydd Dychwelyd y ffurflen Derbyn Cynnig yn arwain at gyhoeddi'r Cadarnhad o Gychwyn Grant a'r Amserlen. Rhaid cyflwyno'r Cadarnhad o Gychwyn Grant o fewn 30 diwrnod (calendr) o dderbyn y ffurflen Derbyn Cynnig gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a bydd y dyddiad dechrau a ddangosir ar y Cadarnhad o Gychwyn Grant yn cael ei ystyried fel dyddiad dechrau'r grant. Gellir mynd i gostau cyn dyddiad dechrau'r grant ond ni ddylid gwneud hynny cyn 1 Ebrill 201*.



12. Sut i hawlio'r arian

- 12.1 Bydd yr arian yn cael ei dalu i ddeiliad y grant yn chwarterol mewn ôl daliadau.
- 12.2 Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ceisio talu'r holl hawliadau dilys cyn gynted â phosibl ac fel arfer o fewn 14 diwrnod o dderbyn yr anfoneb berthnasol.
- 12.3 Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i dalu unrhyw hawliadau am arian nad ydynt yn unol â'r Telerau a'r Amodau hyn, hyd yn oed os bydd hyn yn golygu na fydd y swm cyflawn o Arian Grant yn cael ei dalu i Ddeilydd y Grant.

13. Rhwymedigaethau Cyffredinol Deilydd Grant

- 13.1 Rhaid i Ddeilydd y Grant ddiogelu'r Grant rhag twyll yn gyffredinol ac, yn arbennig, twyll ar ran ei reolwyr, cyflogeion ac/neu gyflenwyr, a bydd Deilydd y Grant yn rhoi gwybod ar unwaith i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd os bydd ganddo reswm i amau bod unrhyw dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd
- 13.2 Ni ddylai Deilydd y Grant defnyddio unrhyw ran o'r Grant (1) i ddibenion gwleidyddiaeth parti (2) i hyrwyddo crefydd neu farn wleidyddol benodol (3) i gamblo (4) i ddibenion pornograffi (5) i gynnig gwasanaethau rhywiol (6) i brynu offer cyfalaf (ar wahân i'r hyn a nodir yn y dibenion) neu (7) i gyflawni gweithgareddau anghyfreithlon o unrhyw fath.
- 13.3 Mae'n rhaid i Ddeilydd y Grant gydymffurfio â'r holl gyfreithiau neu reoliadau perthnasol neu â chyfarwyddebau cyhoeddus boed y rhain yn deillio o gyfreithiau domestig, cyfreithiau'r UE neu gyfraith ryngwladol.
- 13.4 Mae'n rhaid i Ddeilydd y Grant drefnu a chynnal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd y cyflogwr digonol gyda chwmni yswiriant ag enw da er mwyn yswirio rhag y risgiau a allent godi mewn perthynas ag unrhyw eiddo a brynir neu weithgaredd a wneir wrth gyflawni'r Dibenion. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo'r hawl i ofyn i Ddeilydd y Grant gyflwyno unrhyw ddogfennau perthnasol i'r yswiriant hwn i'w harchwilio .



- 13.5 Mae'n rhaid i Ddeilydd y Grant gydymffurfio'n llawn â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran monitro defnydd Deilydd y Grant o'r arian grant a'u cydymffurfiaid â'r Telerau a'r Amodau hyn.

14. Cynrychioliadau a Gwarantau

Drwy dderbyn y Telerau a'r Amodau hyn mae Deilydd y Grant yn dweud ac yn gwarantu :

- 14.1 Bod ganddo'r pŵer i ymrwymo i, a chyflawni'r rhwymedigaethau a amlinellir yn y Telerau a'r Amodau hyn a'i fod wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i awdurdodi ymrwymo i a pherfformio'r rhwymedigaethau dan y Telerau a'r Amodau hyn.
- 14.2 Nad oes ymgyfreithiad neu gyflafareddiad ar y gweill neu ar fin cychwyn, neu, cyn belled ag y mae Deilydd y Grant yn ymwybodol, wedi'i fygwth, a allai gael effaith andwyol ar ei allu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw rai o'r Telerau a'r Amodau hyn.
- 14.3 Bod datgeliad llawn wedi'i wneud i swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyn y dyddiad Cadarnhad o Gychwyn o'r holl ffeithiau neu amgylchiadau materol y mae angen eu datgelu er mwyn galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gael golwg gwir a chywir o fusnes Deilydd y Grant neu y dylid eu cyflwyno i unrhyw un sy'n ystyried darparu cyllid i Ddeilydd y Grant.
- 14.4 Mae Deilydd y Grant wedi trafod a chytuno ar yr Amcanion a'r Deilliannau gyda Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac yn hyderus eu bod yn realistig ac yn gyraeddadwy.

15. Newidiadau i'r Prosiect/Swydd/Gwasanaeth

- 15.1 Rhaid ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd os bydd unrhyw newidiadau mawr i'r prosiect/swydd/gwasanaeth arfaethedig, gan gynnwys methiant i gael mynediad at wasanaethau, yn enwedig y rhai hynny a fydd yn ei gwneud yn annhebygol y bydd amcanion y prosiect/swydd/gwasanaeth yn cael eu gwireddu. Os yn briodol, efallai y bydd angen cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo'r hawl i wneud grantiau newydd yn lle'r grant presennol, neu i adolygu, cadw neu stopio'r grant cyfredol.



- 15.2 Rhaid cael caniatâd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyn rhoi unrhyw newid o'r fath ar waith. Nodwch nad oes dyletswydd ar y Comisiynydd .
- 15.3 Cyfrifoldeb Deilydd y Grant yw rheoli adnoddau'r Grant, gan gynnwys staff, ac ni fydd angen ymgynghori a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd os bydd lefelau staffio yn newid.
- 15.3 Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd amrywio maint y Grant yn ystod oes y Grant yn unol â dadchwyddiant neu er mwyn ystyried unrhyw benderfyniadau Llywodraethol eraill sy'n effeithio ar y cyllid sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

16. Archwilio

- 16.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo'r hawl i gael mynediad rhesymol i archwilio'r cofnodion a'r gweithdrefnau arianno cysylltiedig â grantiau neu i benodi corff neu unigolyn arall i ddibenion cynnal archwiliad o'r fath.
- 16.2 Mae'n rhaid i Ddeilydd y Grant, os bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gofyn am hynny, ddarparu datganiad o gyfrifon perthnasol i'r Grant, yn tystio bod y gwariant wedi'i wneud yn unol â'r Telerau ac Amodau.
- 16.3 Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd adolygu Deiliaid Grantiau o dro i dro er mwyn ceisio sicrwydd bod y grantiau'n cael eu rheoli yn unol â'r Telerau ac Amodau.

17. Adrodd yn ôl ar berfformiad a chanlyniadau ymchwil

- 17.1 Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd angen adroddiadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn amcanion a chanlyniadau arfaethedig Deilydd y Grant a rhaid cyflwyno adroddiadau chwarterol gyda phob anfoneb.

18. Ymgysylltu â'r Cyhoedd


- 18.1 Cyfrifoldeb Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Deilydd y Grant yw rhoi gwybod i'r cyhoedd ar lefel leol a chenedlaethol beth yw canlyniadau'r prosiect/swydd/gwasanaeth, a chodi ymwybyddiaeth o rôl diogelwch cymunedol mewn unrhyw faterion o fudd cyhoeddus perthnasol. Mae'n rhaid



i Ddeilydd y Grant gydnabod cyfraniad ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd tuag at y prosiectau a enwir pan fydd cyfleoedd priodol i wneud hynny yn codi.

19. Cyffredinol

- 19.1 Os credir ar unrhyw adeg bod unrhyw rai o'r Telerau a'r Amodau'n annilys, yn anghyfreithiol neu nad oes modd eu gorfodi mewn rhyw ffordd dan unrhyw gyfraith, ni fydd hyn yn dylanwadu mewn unrhyw ffordd ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb neu orfodaeth y darpariaethau sy'n weddill.
- 19.2 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ran Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran arfer unrhyw bŵer neu hawl dan y Telerau ac Amodau hyn gyfwerth â hepgor y pŵer neu'r hawl hwnnw, nac yn atal eu harfer eto nac yn atal arfer unrhyw bŵer neu hawl arall. Mae'r pwerau a'r hawliau a gyflwynir yma yn gronnus ac nid yn anghynhwysol o unrhyw bwerau neu hawliau a ddarperir dan y gyfraith
- 19.3 Rhaid cyflwyno unrhyw newid neu amrywiad yn y Telerau a'r Amodau hyn yn ysgrifenedig a rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Deilydd y Grant eu harwyddo.
- 19.4 Ni chaiff Deilydd y Grant aseinio neu gael gwared mewn unrhyw ffordd arall â'i hawliau, buddion, rhwymedigaethau neu ddyletswyddau dan y Telerau a'r Amodau hyn.
- 19.5 Bydd unrhyw amodau y mae angen iddynt barhau hyd ddiwedd y Cyfnod yn gwneud hynny.
- 19.6 Dyfernir y Grant i Ddeilydd y Grant yn unig ac nid oes hawl gan unrhyw un arall wneud hawliad mewn perthynas â'r cyllid na cheisio dibynnu ar na gorfodi unrhyw rai o'r Telerau ac Amodau hyn.
- 19.7 Rheolir a dehonglir y Telerau ac Amodau hyn yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr fel y'i gweithredir yng Nghymru a rhaid i'r partïon drwy hyn ildio i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.



20. Ymwrthodiad

- 20.1 Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn derbyn unrhyw atebolrwydd, cyfreithiol neu fel arall, am wariant neu atebolrwydd yn deillio o'r prosiect/swydd/gwasanaeth a ariennir drwy'r Grant, ar wahân i'r hyn a amlinellir yn y Telerau ac Amodau hyn neu fel y cytunwyd yn ysgrifenedig.
- 20.2 Nid oes unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn rhoi unrhyw atebolrwydd ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd dros unrhyw atebolrwydd fydd ar Ddeilydd y Grant neu unrhyw drydydd parti.
- 20.3 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo'r hawl i derfynu'r Grant ar unrhyw adeg, yn amodol ar gyfnod rhesymol o rybudd.
- 20.4 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn neilltuo'r hawl i newid yr Amserlen daliadau yn ôl ei ddisgresiwn. Bydd Deilydd y Grant yn cael gwybod ymlaen llaw am unrhyw newid o'r fath. Gall newidiadau mewn amserlenni talu effeithio ar werth hollgynhwysfawr y Grant.
- 20.5 Os terfynir Grant neu os bydd ei werth yn lleihau, ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd am daliadau neu ddiswyddiadau nac unrhyw iawndaliadau eraill yn sgil diswyddo staff a ariennir drwy'r Grant
- 20.6 Rhaid i Ddeilydd y Grant indemnio'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn erbyn unrhyw atebolrwydd, hawliadau, achosion, galwadau, colledion, costau neu dreuliau y bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn eu cael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn perthynas ag unrhyw fethiant ar ran Deilydd y Grant i berfformio'n llawn neu'n rhannol unrhyw ymrwymiad sydd ganddo i drydydd parti.



21. Derbyn y Cynnig

21.1 Yr wyf drwy hyn yn derbyn y Cynnig o Grant a wnaed gan Gomisiynydd heddlu Gogledd Cymru ar ran Deilydd y Grant ac yn derbyn y Telerau ac Amodau uchod:

..... (LLOFNOD)

..... (ENW MEWN
LLYTHRENNAU
BRAS)

..... (TEITL SWYDD)

..... (SEFYDLIAD)

..... (DATE)

